

Cyfarfod Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

Cofnodion

19 Medi 2018, Ystafell Gyfarfod Garn Ddu, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru,
Rhyd-y-car, Merthyr Tudful

Presennol:

Daniel Groves (DG)	Cadeirydd (Annibynnol)
Katie Dalton (KD)	Cymorth Cymru
Nigel Stannard (NS)	Cynrychiolydd Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl
Harry McKeown (HMK)	Cynrychiolydd Cartrefi Cymunedol Cymru
Frances Beecher (FB)	Cadeirydd Gweithgor Llywodraethu
Michelle Church (MC)	Cadeirydd Grŵp Cyllid ac Ymchwil Strategol
Keiron Montague (KM)	Aelod annibynnol
Hannah Mills (HM)	Cynrychiolydd RCC
Sarah Rhodes (SR)	Llywodraeth Cymru
Angharad Rogers (AR)	Llywodraeth Cymru
Paul Webb (PW)	Llywodraeth Cymru
Julie Llewellyn (JL)	Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Naomi Alleyne (NA)	CLILC
Sue Thomas (ST)	Arweinyddiaeth Tai Cymru
Diana Binding (DB)	Prawf
Helen Northmore (HN)	Annibynnol
Josie Smith (JS)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Claire Marchant (CM)	Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Emma Williams (EW)	Llywodraeth Cymru
Mansel Aylward (MA)	GIG

Nodyn	Cam gweithredu
1. Croeso a Chyflwyniadau	
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.	
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi	
<ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. • Mae diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol i'w weld ar ddiwedd y cofnodion. 	
3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru	
<p>Cyhoeddiad Llywodraeth y DU am Adolygiad o Lety â Chymorth (SAR)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth y DU y llynedd ar ei gynnig am ffyrdd newydd o ariannu tai â chymorth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 9 Awst 2018 y caiff yr holl arian tai â chymorth ei gadw yn y system les ac y bydd budd-dal tai yn parhau i bawb sy'n byw mewn tai â chymorth. • Cyfarfu grŵp llywio SAR Llywodraeth Cymru ar 10 Medi a nodwyd y pwyntiau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ mae'n debygol y caiff llety â chymorth ei ddiffinio gan ddefnyddio diffiniad Llety Penodedig. Ni chaiff cyfran fawr o dai gwarchod na hyd yn oed gynlluniau Gofal Ychwanegol yng Nghymru eu diffinio fel Llety Penodedig, sy'n golygu y byddai angen i denantiaid o oedran gweithio hawlio Credyd Cynhwysol. Mae taliadau gwasanaeth Credyd Cynhwysol yn fwy cyfyngol na budd-daliadau tai a byddai hyn yn arwain at ddiffyg rhent a thaliad gwasanaeth i'r tenantiaid. ○ Pennwyd y diffiniad ar gyfer Tai a Chymorth/Anghenion Cyffredinol fel mesur dros dro, gydag Awdurdodau Lleol yn dehongli'r diffiniad yn wahanol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi datgan y dylid defnyddio'r diffiniad cyffredol; fodd bynnag, mesur dros dro yn unig roedd hwn i fod. • Gofynnodd HMK a yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn debygol o adolygu'r diffiniad ac awgrymodd y gallai fod yn werth cynnal ymarfer gyda Rheolwyr Budd-daliadau i ddeall maint y broblem a defnyddio'r diffiniad gan Awdurdodau Lleol. • Cadarnhaodd PW fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi dweud nad yw'n bwriadu newid y diffiniad o lety penodedig. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol darparu tystiolaeth i gefnogi ein pryderon. • Nododd KD mai mater arall i'w godi yw bod y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a ddatblygwyd o amgylch y SAR wedi nodi'r cyfle i denantiaid symud i mewn i waith heb wynebu costau tai sylweddol. Mae'n ymddangos bod y penderfyniad i ddychwelyd i'r system Budd-daliadau Tai yn 	<p>HMK i siarad â landlordiaid i ddeall maint y broblem</p>

<p>gwrthdroi'r cyfle hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y materion hyn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac, os bydd angen, caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Grŵp Llywio a Rheolwyr Budd-daliadau er mwyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau gynnig eglurhad. • Dywedodd FB fod yn rhaid i sefydliadau sybsideiddio menywod y mae angen iddynt aros mewn llochesi am ei bod yn rhy ddrud i'r menywod aros yno. Mae hyn yn ychwanegu at ddiffyg y sector sy'n arwain at broblem enfawr. Awgrymodd FB y dylid sefydlu gweithgor i ystyried y problemau. Dywedodd KD fod WWA yn ymrwymedig i siarad â'r rhanddeiliaid ac adrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio. <p>Hyblygrwydd Cyllid</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff yr Adroddiad Gwerthuso Interim terfynol gan Wavehill ei gyhoeddi gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o dan ganllawiau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn fuan. Cyfarfu'r Grŵp Llywio Gwerthuso yn ystod mis Medi i drafod yr adroddiad drafft ac adrodd yn ôl ar y sylwadau i Wavehill. • Disgwylir cyhoeddiad ar benderfyniad terfynol y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal gan y Gweinidog ym mis Hydref. Gofynnodd y grŵp a ellid anfon nodyn at y Gweinidog yn gofyn i'r grŵp gael gwybod am unrhyw benderfyniadau/cyhoeddiad cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi sefydlogrwydd i'r sector. <p>Canllawiau Cefnogi Pobl</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddwyd y canllawiau Cefnogi Pobl terfynol ar 30 Gorffennaf 2018. Mae'r canllawiau yn nodi na all defnyddwyr gwasanaethau gael gafael ar wasanaethau os nad oes ganddynt hawl i ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus. Nododd cyngor cyfreithiol mewnol a gafwyd na ellir newid hyn am y byddai'n tansilio polisi mewnfudo'r DU. • Gofynnodd KD a all y canllawiau gynnwys cyfeiriad at Ddull Gwybodus Seicolegol pan gânt eu diweddarau yn y dyfodol? Nododd PW nad dogfen arfer da yw hon ond dogfen ganllaw ar sut i weinyddu rhaglen Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, byddem yn sicrhau bod meini prawf yn galluogi PIA. • Dywedodd NS fod y canllawiau diwygiedig wedi'u nodi'n gliriach a'i bod yn haws eu llywio. <p>Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei adroddiad ar Raglen Cefnogi Pobl ym mis Mai 2018. Croesawyd yr adroddiad a gwnaethpwyd 13 o argymhellion, yn bennaf yn ymwneud ag integreiddio Cefnogi Pobl yn y grant Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal o 	<p>PW i drefnu cyfarfod/trafod â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnig eglurhad ar y diffiniadau</p> <p>Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i wneud y cais hwn.</p>
---	---

<p>bosibl. Darparwyd ymateb swyddogol ym mis Gorffennaf 2018.</p>	
<p>4. Crynodeb o Adolygiad Blynyddol RCC 2017-18</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Eglurodd FB mai rôl y Gweithgor Llywodraethu yw dadansoddi adroddiadau blynyddol RCC, a'r cwestiwn cyffredinol sy'n cael ei ofyn yw "A yw'r RCC yn dangos ei fod yn darparu cyfeiriad strategol i Raglen Cefnogi Pobl?" • Ar y cyfan, gall y mwyafrif o'r RCCau ddangos eu bod yn darparu cyfeiriad strategol gyda gweledigaeth glir o'r hyn sydd angen datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae dau ranbarth lle mae problemau wedi cael eu nodi ac roedd tystiolaeth yn wan. Nodwyd hefyd bod hyblygrwydd o ran cyllid wedi rheoli agenda'r RCC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Teimlwyd y byddai'n fuddiol i RCCau dynnu sylw at arfer da yn yr adroddiad. Caiff yr adroddiad ei ddiwygio gan FB ac yna anfonir copi o'r adroddiad llawn at bob RDC. • Gofynnodd FB pa gamau y gallai'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl eu cymryd i ddelio â'r problemau y tynnwyd sylw atynt. Penderfynwyd unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i wneud gan y Gweinidog am y Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal, dylid trafod ac adolygu'r problemau cyffredinol a nodwyd a rôl yr RCCau yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ym mis Rhagfyr. • Nododd HMK fod problemau eraill y mae angen tynnu sylw atynt pan fydd y trafodaethau yn cael eu cynnal; mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am newid ei ardal ranbarthol ac mae angen i ni ddeall beth yw'r gwerth ychwanegol o'r ffordd y mae'r RCCau yn gweithio ar hyn o bryd. Gofynnodd HMK hefyd a oes gan y Bwrdd rôl i gynghori'r Gweinidog am risgiau RCCau. Dywedodd FB na allai'r gweithgor gefnogi hyn am ei fod yn ei ystyried yn fwy o gyfle coll ar gyfer gweithio rhanbarthol na risg i ddarparu Rhaglen Cefnogi Pobl. • Roedd FB am nodi diolch y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl i'r Gweithgor Llywodraethu am ei waith caled yn llunio'r adroddiad cynhwysfawr. 	<p>Caiff copi o'r adroddiad diwygiedig ei anfon at bob RDC. Mae angen ychwanegu Adolygiad RCCau at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.</p>
<p>5. Cofrestr Risg</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynodd AR Gofrestr Risg y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl sy'n nodi'r risgiau allweddol i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Adolygwyd a diweddarwyd y gofrestr ddiwethaf yng nghyfarfod mis Mehefin. • Cytunodd y Bwrdd y dylid tynnu'r risg SAR a'i ddisodli gyda risg newydd ynghylch sicrhau bod deialog yn cael ei chynnal gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â phroblemau parhaus. 	<p>AR i ddiweddarau'r gofrestr risg gyda'r</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Bydd AR yn diweddarau'r gofrestr risg gyda'r holl newidiadau y cytunwyd arnynt ac anfonir y gofrestru wedi'i diweddarau at y Bwrdd. 	diwygiadau
6. Diweddariadau	
<p>Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl ar 3 Gorffennaf ac roedd nifer dda o bobl yno. • Diolchwyd i Reolwyr Cefnogi Pobl am roi eu hymatebion am Wasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal a gafodd eu casglu mewn papur. Rhannwyd copi o'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog gyda'r cyfarfod yn argymhell ystyried dau grant ar wahân. • Mae'r Ymgyrch Rhoi Diwedd i Ddigartrefedd Ieuenctid wedi bod yn rhedeg ers blwyddyn. Mae'r grŵp wrthi'n sefydlu tri grŵp gorchwyl a gorffen y maent yn chwilio am bobl i'w cynrychioli. Os oes diddordeb gan aelodau dylent roi gwybod i Joy Williams yn gyntaf. • Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y diffiniad o Lety argyfwng a rennir i'w gynnwys yn y canllawiau ar gyfer cyfrif nesaf cysgu ar y stryd Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r grŵp am awgrymiadau ar gyfer y diffiniad. • Mae'r gronfa ddata SHIN yn datblygu ac mae'r meysydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Caiff y gronfa ddata ei pheilota mewn rhai ardaloedd yn gyntaf cyn ei chyflwyno ledled y wlad i bob tîm sy'n gweithio'n uniongyrchol â phobl sy'n cysgu ar y stryd. • Caiff Joy Williams ei chyflogi gan Gasnewydd o 1 Awst. • Arweiniodd Carl Spiller o Lywodraeth Cymru drafodaeth ynghylch Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. • Nododd NS fod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Raglen Cefnogi Pobl i atal digartrefedd nad yw'n cael ei gofnodi. Mae angen cael cysylltiadau gwell rhwng digartrefedd a Cefnogi Pobl. • Rhoddodd Paul Neave o Lywodraeth Cymru gyflwyniad ar Wasanaethau Cynghori Cynaliadwy o Ansawdd. Bu trafodaeth ynghylch gwaith y Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor a'r camau i ad-drefnu'r dasg o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau cynghori yng Nghymru. <p>RCC</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd HM fod yr RCCau wedi gofyn iddi geisio eglurhad ar rai pwyntiau: <ol style="list-style-type: none"> 1. A fyddai'r Adolygiad o Adroddiad RCC a gynhelir gan y Grŵp Llywodraethu yn cael ei rannu â RCCau/RDCau? Cytunwyd eisoes y caiff yr adroddiad ei rannu. 	

2. Beth yw dyfodol RCCau a RDCau? Nododd PW nad yw'n bosibl rhoi ateb diffiniol ar hyn o bryd nes bod Gweinidogion wedi gwneud penderfyniad terfynol am y Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Fodd bynnag, bydd angen ystyried strwythurau llywodraethu.

Grŵp Llywodraethu

- Nododd FB fod angen ystyried y cynllun gwaith yn y dyfodol ar gyfer y grŵp, yn ogystal ag aelodaeth a diben.

Grŵp Cyllid ac Ymchwil

- Nododd MC fod y grŵp wedi cwrdd ar 10 Gorffennaf ac roedd trafodaethau am Hyblygrwydd Cyllid wedi rheoli'r cyfarfod.

Grŵp Ymchwil a Gwerthuso

- Mae'r grŵp wedi parhau i gwrdd yn fisol er mwyn monitro cynnydd gyda phrosiect SAIL. Mae'n wir o hyd bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol wedi llofnodi Cytundebau Rhannu Data ac wedi cyflwyno eu data i'r prosiect.
- Cyhoeddwyd yr adroddiad ar gynnydd Blwyddyn 2 ar ddiwedd mis Mehefin a roddodd y newyddion diweddaraf am y broses. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cynnwys dadansoddiad data ar y pryd.
- Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o brosiect SAIL.

Cartrefi Cymunedol Cymru

- Dywedodd HM fod Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynnal etholiadau i adnewyddu'r cynrychiolwyr sy'n landlordiaid ar RCCau. Mae etholiadau'n mynd rhagddynt yng Nghwm Taf, Caerdydd a'r Fro a Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Maent yn edrych am ddirprwyon yng Ngwent a Bae'r Gorllewin.
- Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn gweithio gyda Cymorth i agor yr RPFau i'r cynrychiolwyr sy'n landlordiaid fel bod y gwasanaethau yn fwy cydlynol.
- Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU i barhau i ariannu rhenti Llety â Chymorth drwy Fudd-daliadau Tai ar ôl rhoi'r gorau i'w cynlluniau i leoleiddio costau tai.
- Roedd HM am sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r Gynhadledd Tai Fawr a gynhelir ar 11/12 Hydref.
- Gweithio gyda CIH a'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf a'r Rhwydwaith Tai i ymgysylltu ag uwch staff rheoli tai i ddeall beth sy'n ofynnol er mwyn cael gafael ar lety ar gyfer gwasanaethau Tai yn Gyntaf. Bydd y gwaith ymgysylltu drwy ddigwyddiadau, grwpiau a rhwydweithiau cyfredol.
- Caiff is-grŵp Rheoli Tai o'r rhwydwaith Tai yn Gyntaf ei greu

i ymgysylltu â'r rhan bwysig hon o waith Tai yn Gyntaf.

Cymorth Cymru

- Mae llawer o waith Cymorth wedi canolbwyntio ar yr ymgyrch i gadw ffens derfyn o amgylch digartrefedd a chyllid cymorth yn gysylltiedig â thai. Mae'r adroddiad Materion Tai wedi cael ei gyhoeddi sy'n amlinellu ateb amgen i grant arbennig y Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal ac mae ganddo gefnogaeth eang o bob rhan o'r sector tai a chymorth.
- Mae wedi parhau i redeg y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, ac mae nifer o ddarparwyr cymorth trydydd sector, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wedi dod, ac mae'r aelodaeth ehangach yn cynnwys iechyd cyhoeddus.
- Mae gwaith pellach i drefnu a gwasanaethu Rhwydweithiau Camddefnyddio Sylweddau'r Trydydd Sector yn parhau a'r nod yw datblygu cysylltiadau rhwng sefydliadau tai a chamddefnyddio sylweddau.
- Mae gwaith yn parhau gyda grŵp diddordeb arbennig Anabledd Dysgu gyda darparwyr cynlluniau byw â chymorth Anabledd Dysgu. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru a chysylltwyd â llywodraeth leol.
- Mae Fforymau Darparwyr Rhanbarthol Cefnogi Pobl yn cael eu cynnal ym mhob un o'r chwe rhanbarth RCC. Mae nifer o ddarparwyr a landlordiaid wedi dod i'r rhain ac maent yn darparu gofod defnyddiol i drafod datblygiadau polisi cenedlaethol a phroblemau comisiynu lleol.
- Mae cais am gyllid wedi cael ei gyflwyno i ddarparu mwy o hyfforddiant PATH, gan gydweithio â Phrosiect Rhwydweithiau Tai Awdurdodau Lleol a'r Hwb ACEau. Hefyd, mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Cynorthwyol De Cymru er mwyn cynnwys prosiect Review Together yn y cynnig.
- Mae dau ddigwyddiad ar y gweill gan Cymorth: Tai a Chymorth Seicolegol Wybodus ar 26 Medi a Symposiwm Digartrefedd ar 7 Tachwedd.

7. Diwrnod Datblygu mis Rhagfyr

Mae'r canlynol yn rhestr o eitemau y nodwyd y dylid eu trafod/adolygu yng nghyfarfod mis Rhagfyr:

- Y cysylltiadau rhwng digartrefedd a threfniadau Cefnogi Pobl/llywodraethu
- Argymhellion ar drefniadau llywodraethu ar gyfer Grant Tai newydd (yn dibynnu ar y penderfyniad am Wasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal), gan gynnwys rôl y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ac RCCau.
- Adolygiad o RCCau/RDCau

<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o Grwpiau ac aelodaeth presennol y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl • Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod • Ciplwg manwl ar Argymhellion Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru • Cyfres o gwestiynau i'w chreu i hwyluso trafodaethau grŵp. 	
8. Ethol Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae DG wedi gweithredu fel y Cadeirydd interim ers mis Mawrth 2018 oherwydd ymddiswyddiad y Cadeirydd blaenorol. Ar hyn o bryd mae 3 aelod annibynnol ar y bwrdd. Yn dilyn pleidlais, enwebwyd DG fel y Cadeirydd parhaol. Derbyniodd DG y rôl. 	
9. Unrhyw Fater Arall	
<ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd y bwrdd am eglurhad pellach a diweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar ddigartrefedd a Tai yn Gyntaf. Awgrymodd SR y dylid ychwanegu hyn fel diweddariad safonol ar yr agenda. 	<p>Bwrdd i ystyried hyn fel rhan o'r gwaith o adolygu trefniadau llywodraethu ym mis Rhagfyr</p>
10. Cyfarfod Nesaf	
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyfarfod mis Rhagfyr yn ddiwrnod datblygu a gynhelir ddydd Llun 3 Rhagfyr 2018 yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd. • Cynhelir trafodaethau pellach o ran pwy ddylai ddod i'r diwrnod datblygu. 	

Log Camau Gweithredu
Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB)

Dyddiad y Nodwyd y Cam Gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Person sy'n Gyfrifol	Statws
1. 11 Mehefin 2018	Hyblygrwydd Cyllid – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – PW i gadarnhau'r dyddiad ar gyfer cwblhau'r EIA gyda'r tîm FF.	Paul Webb	Wedi'i gwblhau
2. 11 Mehefin 2018	Hyblygrwydd Cyllid - yr ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu'r holl gyfraniadau a ddarparwyd ar gyfer y papur a anfonwyd at y Gweinidog.	Ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru	Cwblhawyd Mehefin 2018
3. 11 Mehefin 2018	SAR – NA i drefnu cyfarfod rhwng PW ac Aelodau o Awdurdodau Lleol.	Naomi Alleyne	Nid yw'r cyfarfod hwn yn angenrheidiol mwyach yn sgil y cyhoeddiad SAR.
4. 11 Mehefin 2018	Cynllun Gweithredu Cysgu ar y Stryd – anfon copi o'r ToR ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Digartrefedd at y bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru	Cwblhawyd Medi 2018
5. 11 Mehefin 2018	Cymorth Cefnogi Pobl i Ffoaduriaid – y bwrdd i ddarparu gwybodaeth i NA am lefel y cymorth a ddarperir i ffoaduriaid.	Aelodau'r Bwrdd	Wedi'i gwblhau
6. 11 Mehefin 2018	Roedd y Gofrestr Risg wedi cael ei diweddarau am nad oedd yn gyfredol. Y bwrdd i ddarparu sylwadau am y newidiadau i AR.	Aelodau'r Bwrdd	Wedi'i gwblhau